Uned 3E: E-bost

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon bydd plant yn dysgu sut i ddefnyddio e-bost (post electronig) i anfon a derbyn negeseuon. Maen nhw'n dysgu am gyfathrebu dros bellter a bydd angen iddynt ystyried a chymharu dulliau gwahanol o gyfathrebu.

Mae defnyddio e-bost yn gallu helpu plant i ddatblygu eu sgiliau darllen ac ysgrifennu a datblygu eu gwybodaeth am y gymuned ehangach. Mae'r uned yn gofyn am gydweithredu gydag ysgolion eraill.

Bydd y plant yn cymhwyso'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn yr uned hon wrth ddefnyddio e-bost, casglu gwybodaeth, datblygu prosiectau cydweithredol ac ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd eraill.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned yn cymryd yn ganiataol bod plant:

- yn gyfarwydd ag ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol a darllen gwaith ysgrifennu pobl eraill
- yn gyfarwydd â'r confensiynau a ddefnyddir i reoli rhaglenni cyfrifiadurol, *ee pwyntyddion ac eiconau.*

Geirfa:

E-bost | Creu | Agor| Cyfeiriad | Mewnflwch | Blwch allan | Wedi'i anfon | Dileu | Ateb | Pwnc |

Adnoddau:

rhaglen e-bost | cysylltiad â'r Rhyngrwyd | Good Enghreifftiau da o dechrau/diweddglo stori |

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: anfon, derbyn ac ymateb i e-byst; datblygu a mireinio negeseuon testun

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: derbyn ac ymateb i e-bys

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: anfon, derbyn ac ymateb i e-byst; datblygu a mireinio negeseuon testun; cadw ac argraffu negeseuon

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** bod modd defnyddio e-bost i anfon negeseuon dros bellter	♦ Trafodwch ffyrdd o anfon negeseuon dros bellter *ee llythyr, radio, ffôn*. Disgrifiwch rai dulliau cynharach o gyfathrebu, *ee fflagiau rhoi signal, coelcerthi, côd Morse*. Gofynnwch i'r dosbarth feddwl am fanteision ac anfanteision y dulliau hyn, ee cyflymdra, cyfrinachedd, parhad. Dywedwch wrth y dosbarth eu bod yn mynd i ddefnyddio e-bost i anfon negeseuon at ysgol arall. ♦ Pwysleisiwch bwysigrwydd cywirdeb wrth ysgrifennu cyfeiriad e-bost.	• ddeall bod modd anfon negeseuon dros bellter • bod yn rhaid ysgrifennu cyfeiriadau e-bost yn gywir	• Gallai plant ddynwared anfon negeseuon dros bellter, gan ddyfeisio eu codau a'u confensiynau eu hunain a'u defnyddio i anfon signalau. Gallai hyn arwain at drafodaeth am sut mae dangos bod neges yn dechrau neu'n dod i ben.
Tasg fer wedi'i ffocysu • **techneg:** darllen e-bost ac ymateb iddo	♦ Gofynnwch i athrawon mewn ysgol arall drefnu i'w dosbarth anfon nifer o e-byst atoch sy'n cynnwys negeseuon syml. Dangoswch i'r dosbarth sut i agor y blwch post a darllen y negeseuon. Gofynnwch i bob plentyn agor neges, ei darllen ac ymateb iddi. Trafodwch gonfensiynau ysgrifennu, fel sylwadau ar y dechau a'r diwedd.	• darllen ac ymateb i e-byst	• Os oes digon o amser, anogwch y plant i ddweud rhywbeth amdanynt eu hunain yn eu hatebion. • Anogwch y plant i fod mor ofalus gyda sillafu, atalnodi ac eglurdeb ag y byddent pe baent yn ysgrifennu llythyr.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.)			
• **techneg:** darllen, anodi ac ymateb i e-bost	♦ Gofynnwch i athrawon mewn ysgol arall drefnu i'w dosbarth anfon e-byst sy'n cynnwys drafftiau cyntaf o ddarnau byr o waith ysgrifennu, *ee cerddi*. Atgoffwch y dosbarth sut i agor a darllen negeseuon. Dangoswch i'r plant sut i argraffu neges a thrafodwch fanteision argraffu negeseuon, *ee rhoi cyfle i bobl eraill ddefnyddio'r peiriant, darparu cofnod parhaol.* ♦ Gofynnwch i'r plant argraffu'r e-byst. Dywedwch wrthynt mai drafftiau cyntaf yw'r rhain a'u bod nhw'n mynd i'w gwella nhw. Ar ôl i'r plant anodi'r drafftiau â llaw, dangoswch iddynt sut i anfon atebion sy'n cynnwys anodiadau yn esbonio pam maen nhw'n awgrymu newidiadau.	• agor a darllen e-byst • anfon atebion wedi'u hanodi	Bydd y plant yn elwa o weld grwpiau eraill yn anfon eu hymatebion
• **techneg:** creu ac anfon e-bost newydd	♦ Gellir gofyn i'r plant lunio cwestiwn syml yn Gymraeg ar e-bost fel: beth ydy dy enw di? Neu ddisgrifiad ysgrifenedig yn Gymraeg o seren bop neu actor opera sebon er mwyn i ddisgyblion yr ysgol arall ddyfalu pwy ydyw. ♦ Bydd yn rhaid i'r plant ychwanegu'r cyfeiriad e-bost a'r pwnc at yr e-bost a chlicio ar Anfon. Maen nhw'n gallu gwirio ei fod wedi mynd drwy edrych yn y Ffolder Anfonwyd.	• greu neges e-bost newydd • bwydo cyfeiriad e-bost newydd i mewn • bwydo pwnc i mewn • anfon yr e-bost	• Pwysleisiwch bwysigrwydd ysgrifennu cyfeiriad e-bost yn gywir. Rhowch gardiau wedi'u hargraffu gyda'r cyfeiriadau arnynt i'w bwydo, er mwyn iddynt allu copïo a gwirio eu bod yn gywir.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasg Integredig • defnyddio'r Rhyngrwyd i ddynwaredu e-bost	♦ Ceir nifer o wefannau Nadoligaidd da sy'n dynwaredu e-bost drwy roi'r cyfle i blant anfon e-gyfarchion ac e-bostio Siôn Corn e.e. www.northpole,com ♦ Gellir defnyddio hwn fel modd llawn hwyl i ddynwaredu anfon a derbyn e-bost ac mae'n cynnwys bwydo cyfeiriad e-bost i mewn hefyd. Disgwylir i'r plant ddarllen cyfres o gwestiynau a gwneud dewisiadau i greu llythyr i Siôn Corn. Byddant yn derbyn ymateb y diwrnod wedyn. Hefyd mae'n gadael i'r plant greu ac anfon e-gyfarchion sydd wedi'u hanimeiddio.	• creu ac ymateb i e-byst i gasglu gwybodaeth a chyfathrebu â phobl eraill.	• Mae hon yn dasg ddewisol ac mae'n briodol dim ond os yw'n cefnogi gwaith yn y dosbarth yn ystod cyfnod y Nadolig. • Efallai na fydd yn addas i blant o bob ffydd.
• casglu, cyfnewid a datblygu gwybodaeth gan ddefnyddio e-bost	♦ Gellir defnyddio'r technegau a ddysgwy dyn yr uned hon i wella gwaith ym mhob uned arall sy'n dod. Rhoddir rhai awgrymiadau ar gyfer yr unedau eraill yn y golofn 'Sylwch'. ♦ Ar ôl i'r dosbarth drafod agoriadau da i stori, gofynnwch i'r plant weithio mewn parahau i ddechrau ysgrifennu stori a'i hanfon at ddisgyblion mewn ysgol arall i barhau i ysgrifennu'r stori. Dylai'r disgyblion eraill ymateb drwy anfon eu cyfraniad yn ôl mewn e-bost. Wedyn dylai'r plant a ddechreudd y stori ei chwblhau drwy ysgrifennu'r diweddglo a dylid anfon y fersiwn terfynol yn ôl at yr ysgol bartner er mwyn iddynt ei thrafod.	• creu ac ymateb i e-byst i gasglu gwybodaeth a chyfathrebu â phobl eraill	• Dylai trafodaethau dosbarth ynghylch beth sy'n gwneud dechrau/diweddglo da i stori fod yn rhan o'r gweithgaredd hwn. Byddai detholiad o enghreifftiau a dynnwyd o storïau plant yn ddefnyddiol i hybu'r drafodaeth.

Mae'r unedau hyn wedi'u haddasu o ddeunyddiau sydd ar gael ar wefan Cynlluniau Gwaith y QCA